# Cyngor Cymuned Penmynydd a Star
# Cynllun Cyhoeddi

Mae'r cynllun cyhoeddi hwn yn rhwymo'r Cyngor i ofalu bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd fel rhan o'i weithgareddau busnes arferol. Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn perthyn i'r dosbarthiadau o wybodaeth a grybwyllir isod, lle bo'r wybodaeth hon yn cael ei chadw gan y Cyngor. Rhoddir cymorth pellach o ran y diffiniadau o'r dosbarthiadau hyn mewn llawlyfrau penodol i sector a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae'r cynllun yn rhwymo'r Cyngor:

- i gyhoeddi neu wneud ar gael mewn modd arall fel rhan o'i waith arferol wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth amgylcheddol, a gedwir gan y Cyngor sydd yn perthyn i'r dosbarthiadau isod.
- i enwi'r wybodaeth a gedwir gan y Cyngor ac sydd yn perthyn i'r dosbarthiadau isod.
- i gyhoeddi neu wneud ar gael mewn modd arall fel rhan o'i waith arferol wybodaeth yn unol â'r datganiadau a gynhwysir yn y cynllun hwn.
- i gynhyrchu a chyhoeddi'r dulliau a ddefnyddir i ofalu bod y wybodaeth benodol ar gael fel mater o drefn fel bod modd i'r cyhoedd ei hadnabod a'i chyrraedd yn hawdd.
- i adolygu a diweddaru'n rheolaidd y wybodaeth mae'r Cyngor yn trefnu ei bod ar gael dan y cynllun hwn.
- i gynhyrchu rhestr o bob ffi a godir i gael mynediad i'r wybodaeth y trefnir ei bod ar gael.
- i drefnu bod y cynllun cyhoeddi ar gael i'r cyhoedd.

**Dosbarthiadau o Wybodaeth**

**1) Pwy ydym ni a beth a wnawn.**

Gwybodaeth drefniadol, lleoliadau a chytundebau, rheolaeth gyfansoddiadol a chyfreithiol.

**2) Beth a wariwn a sut y gwariwn ef.**

Gwybodaeth ariannol yn ymwneud ag incwm a gwariant amcanol a go iawn, tendro, caffael a chytundebau.

**3) Sut y gwnawn benderfyniadau.**

Cynigion polisi a phenderfyniadau. Prosesau'n ymwneud â gwneud penderfyniadau, meini prawf a gweithdrefnau mewnol, ymgynghoriadau.

**4) Ein rheoliadau sefydlog a'n polisïau.**

Protocolau ysgrifenedig cyfredol ar gyfer cyflawni ein swyddogaethau a'n cyfrifoldebau.

**5) Rhestrau, Cofrestrau a Chynlluniau.**

Gwybodaeth a gedwir mewn cofrestrau a fynnir gan y gyfraith a rhestrau/cynlluniau eraill yn ymwneud â swyddogaethau'r awdurdod.

**6) Y Gwasanaethau a Gynhigiwn.**

# Cyngor Cymuned Penmynydd a Star

Ni fydd y dosbarthiadau gwybodaeth yn gyffredinol yn cynnwys:

- Gwybodaeth y rhwystrir ei datgelu gan y gyfraith neu sydd wedi'i heithrio dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, neu a ystyrir yn briodol fel arall ei bod wedi'i diogelu rhag gael ei datgelu.
- Gwybodaeth ar ffurf drafft.
- Gwybodaeth nad yw bellach ar gael yn hawdd oherwydd ei bod mewn ffeiliau a storiwyd mewn archif, neu sydd yn anodd ei chyrraedd am resymau tebyg.

**Y dull a ddefnyddir i beri bod y wybodaeth a gyhoeddir dan y cynllun hwn ar gael**

Bydd y Cyngor yn nodi'n glir i'r cyhoedd pa wybodaeth a gynhwysir yn y cynllun hwn a sut y gellir ei chael.

Pan fo o fewn gallu'r Cyngor, darperir y wybodaeth ar wefan. Efallai y bydd yr wybodaeth rydych ei heisiau wedi ei gynnwys eisoes yn y cynllun cyhoeddi - felly os gwelwch yn dda edrychwch ar y dogfennau ar y wefan yn gyntaf.

Os ydych yn dymuno gweld dogfennau penodol, dylech gysylltu â'r Clerc

Mae'n rhaid i'ch cais gynnwys eich enw, cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth, a disgrifiad o'r wybodaeth rydych ei hangen.

**Manylion cysylltu:** Clerc, Cyngor Cymuned Penmynydd a Star, Ger y Llan, Llangaffo, Ynys Môn, LL60 6LT penmynyddcc@gmail.com

**Rhestr Ffioedd**

| MATH O FFI | DISGRIFIAD | SAIL Y FFI |
|---|---|---|
| Ffi i dalu treuliau | Llungopïo / Argraffu<br>@ 10c y ddalen (du a gwyn) | Y gost wirioneddol |
| | Costau staff: £20 yr awr pro rata | Y gost wirioneddol |
| | Costau postio a phecynnu | Cost wirioneddol ail ddosbarth safonol y Post Brenhinol |

# Cyngor Cymuned Penmynydd a Star

**Ymateb y Cyngor i Gais Ysgrifenedig**

O fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl derbyn eich cais ysgrifenedig bydd y Cyngor yn :

- cadarnhau i chi a ydyw'n cadw'r wybodaeth
- rhoi gwybod i chi os bydd ffi yn cael ei godi
- yn darparu'r wybodaeth (ar ôl unrhyw ffi berthnasol wedi'i thalu).

Darperir gwybodaeth yn yr iaith y cedwir hi ynddi neu mewn unrhyw iaith arall y mae'n gyfreithiol ofynnol ei chael.

Ufuddheir i rwymedigaethau dan ddeddfau anabledd neu wahaniaethu ac unrhyw ddeddfau eraill i ddarparu gwybodaeth ar ffurfiau ac mewn fformatau eraill pan ddarperir gwybodaeth yn unol â'r cynllun hwn.

**Taliadau y gellir eu codi am wybodaeth a gyhoeddir o dan y cynllun hwn**

Pwrpas y cynllun hwn yw peri bod cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl ar gael yn hawdd i'r cyhoedd gyda chyn lleied o anghyfleustra a chost ag sy'n bosibl. Bydd y taliadau a godir gan y Cyngor am ddeunydd a gyhoeddir fel mater o drefn yn cael eu cyfiawnhau a byddant yn dryloyw ac mor isel ag sy'n bosibl.

Darperir deunydd a gyhoeddir ac a gyrhaeddir ar wefan yn ddi-dâl.
Gellir codi tâl am wybodaeth sydd yn atebol i system daliadau a bennir gan y Senedd.
Gellir codi tâl am all daliadau go iawn a gyfyd fel:

- Llungopïo
- Postio a phecynnu
- Costau staff a amcangyfrifwyd ynghlwm wrth leoli a neu gasglu'r wybodaeth

Bydd hysbysiad ffi yn cael ei anfon at yr ymgeisydd yn gofyn am y ffi briodol . Ni fydd y cais yn cael ei hateb nes bod y ffi wedi dod i law. Os yw gwir gost o gwblhau'r cais yn fwy na'r amcangyfrif, yna bydd y Cyngor yn wynebu cost ychwanegol. Lle mae'r gost yn llai na'r gost a amcangyfrifwyd, yna bydd y gwahaniaeth yn cael ei ad-dalu i'r ymgeisydd.

Mae'r wefan yn dal y math o wybodaeth y mae'r Cyngor fel mater o drefn yn cyhoeddi ee cofnodion ac agendâu . Efallai y bydd yr wybodaeth rydych ei heisiau wedi ei gynnwys eisoes yn y cynllun cyhoeddi - felly os gwelwch yn dda edrychwch ar y dogfennau ar y wefan yn gyntaf.

**Ceisiadau Ysgrifenedig**

Os na fydd y wybodaeth yn cael ei chynnwys yn y cynllun cyhoeddi neu ar y wefan gallwch anfon cais ysgrifenedig at y Clerc drwy e-bost (penmynyddcc@gmail.com) neu drwy'r post Cyngor Cymuned Penmynydd a Star, Ger y Llan, Llangaffo, Ynys Môn, LL60 6LT
Ar gyfer derbyn unrhyw ohebiaeth mae'n rhaid i'ch cais gynnwys eich enw, cyfeiriad a disgrifiad o'r wybodaeth rydych ei hangen.

# Cyngor Cymuned Penmynydd a Star

## Yr wybodaeth sydd ar gael o dan y cynllun cyhoeddi a sut i'w gael

| **Dosbarth 1 - Pwy ydyn ni a beth yw'n gwaith ni** | |
|---|---|
| Pwy yw pwy ar y Cyngor | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Manylion cysylltu'r Clerc.<br>Gellir cysylltu ag aelodau'r Cyngor drwy'r Clerc | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Cynllun Hyfforddiant | Gwefan / e-bost / copi caled |

| **Dosbarth 2 – Faint rydyn ni'n ei wario a sut**<br>Adran Gyllid y wefan (fesul blwyddyn) ac Adran Rheoliadau Ariannol | |
|---|---|
| Ffurflen ac adroddiad blynyddol yr archwilydd allanol | Ar wefan y Cyngor, ei harddangos ar hysbysfyrddau'r Cyngor am gyfnod o 3 wythnos a hefyd gellir cael copi caled drwy gysylltu gyda'r Clerc |
| Adroddiad blynyddol yr archwilydd mewnol | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Datganiad Blynyddol | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Cyllideb | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Rheoliadau Ariannol | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Taliadau i Aelodau | Gwefan / e-bost / copi caled |

| **Dosbarth 3 – Sut rydyn ni'n gwneud penderfyniadau** | |
|---|---|
| Amserlen cyfarfodydd | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Agendâu cyfarfodydd | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Cofnodion cyfarfodydd – *D.S. Fydd hyn ddim yn cynnwys gwybodaeth y mae'n briodol barnu ei bod yn breifat i'r cyfarfod.* | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Adroddiadau blynyddol y Cadeirydd | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Ymatebion i bapurau ymgynghori | e-bost / copi caled |
| Ymatebion i geisiadau cynllunio | e-bost / copi caled |

# Cyngor Cymuned Penmynydd a Star

| **Dosbarth 4 – Ein Rheoliadau Sefydlog a'n polisïau** | |
|---|---|
| Rheolau Sefydlog | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Cod Ymddygiad (Cynghorwyr) | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Cod Ymddygiad (Cyflogeion) | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Gweithdrefnau ar gyfer cwynion | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Polisïau ceisiadau am wybodaeth (Cynllun Cyhoeddi) | Y ddogfen hon / Gwefan |
| Rhestr o ffioedd (am gyhoeddi gwybodaeth) | Gweler "Rhestr Ffioedd" uchod |
| Polisi Yswiriant | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Polisi Iaith | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Polisi Cyfle Cyfartal | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Polisi Cadw a Gwaredu | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Polisi Cyfryngau Cymdeithasol | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Polisi Rheoli Straen | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Polisi Iechyd a Diogelwch | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Polisi Cwynion | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Polisi Treuliau'r Clerc | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Polisi'r Wasg a'r Cyfryngau | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Asesiad Risg | Gwefan / e-bost / copi caled |

# Cyngor Cymuned Penmynydd a Star

| **Dosbarth 5 – Rhestrau, Cofrestrau a Chynlluniau** | |
|---|---|
| Cofrestr o Asedau | Gwefan / e-bost / copi caled) |
| Cofrestr o fuddiannau’r aelodau | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Cofrestr o roddion a lletygarwch | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Cynllun Iaith | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth | Gwefan / e-bost / copi caled |

| **Dosbarth 6 - Y gwasanaethau rydyn ni’n eu cynnig** | |
|---|---|
| Cae chwarae a’r Bioamrywiaeth yno | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Meinciau | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Cysgodfan bysiau | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Y Ganolfan | e-bost / copi caled<br>neu gysylltwch yn uniongyrchol â<br>Phwyllgor y Ganolfan |
| Hysbysfyrddau | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Llwybrau Cyhoeddus | Gwefan / e-bost / copi caled |
| Hysbysiadau | Gwefan / e-bost / copi caled |